# Defnyddio cyfarpar i symud a throsglwyddo nwyddau

## Trosolwg

Mae’r safon hon yn ymwneud â defnyddio cyfarpar i symud a throsglwyddo nwyddau i gerbyd ac oddi yno fel rhan o gasgliad neu ddosbarthiad.
Mae’n cynnwys dewis y cyfarpar perthnasol, sicrhau bod yr ardal waith yn ddiogel ar gyfer defnyddio’r cyfarpar, a’r broses o symud, trosglwyddo a gosod nwyddau i lawr yn ddiogel.
Mae hefyd yn cynnwys y gofyniad i’r gyrrwr gael ei hyfforddi i weithredu’r cyfarpar, a meddu ar ardystiad cyfredol, lle bo angen, yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol.
Mae’r safon hon yn berthnasol i bob gyrrwr sy’n dosbarthu i gwsmeriaid a’r rheiny sy’n gyfrifol am gerbydau nwyddau o fewn gweithrediadau logisteg.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1.
nodi’r nwyddau i gael eu symud a’u trosglwyddo i neu o’r cerbyd nwyddau a chadarnhau eu bod yn addas i’w symud
2.
cadarnhau’r lleoliad dynodedig ar gyfer casglu neu osod y nwyddau i lawr, yn unol â chyfarwyddiadau’r sefydliad a gofynion y cwsmer
3. sicrhau bod yr ardal yn ddiogel ar gyfer symud a throsglwyddo nwyddau
4. cadarnhau bod y cerbyd nwyddau yn ddiogel ac yn sefydlog wrth symud a throsglwyddo nwyddau
5. nodi unrhyw beryglon ac anawsterau posibl yn symud a throsglwyddo nwyddau, eu datrys gyda chydweithwyr neu’r cwsmer
6. gwirio bod y cyfarpar a ddefnyddiwyd i symud a throsglwyddo’r nwyddau wedi cael ei baratoi a’i fod yn weithredol yn unol â gweithdrefnau’r sefydliad
7. gwisgo Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) wrth symud a throsglwyddo llwythi gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol a gofynion llwyth
8. cadarnhau bod yr hyfforddiant a’r trwyddedau perthnasol yn gyfredol ac wedi eu diweddaru ar gyfer y cyfarpar sy’n cael ei ddefnyddio i symud a throsglwyddo’r nwyddau
9. defnyddio cyfarpar i symud a throsglwyddo nwyddau i neu o’r cerbyd nwyddau yn ddiogel a heb golled, niwed neu halogiad
10. gosod y nwyddau i lawr mewn safle addas ar y cerbyd nwyddau neu yn y lleoliad dynodedig
11. symud a throsglwyddo nwyddau mewn ffordd sy’n lleihau unrhyw niwed posibl i’r amgylchedd cyfagos
12. nodi unrhyw broblemau gyda math, maint neu ansawdd nwyddau, gweithredu ac adrodd ar y problemau, gan ddilyn gweithdrefnau sefydliadol
13. dychwelyd y cyfarpar a ddefnyddiwyd i symud a throsglwyddo’r nwyddau i’w safle gwreiddiol ar ôl ei ddefnyddio
14. cofnodi’r gwaith a wnaed yn y system wybodaeth a chofnodi berthnasol, yn unol â gweithdrefnau sefydliadol
15. cydymffurfio â gweithdrefnau sefydliadol a’r holl ofynion amgylcheddol, cyfreithiol, diogelwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â defnyddio cyfarpar i symud a chludo nwyddau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. nodweddion mathau gwahanol o nwyddau sydd yn cael eu casglu neu eu dosbarthu gan eich sefydliad a sut mae angen iddynt gael eu symud a'u trosglwyddo
2. y mathau o gyfarpar y gellir eu defnyddio i symud a throsglwyddo'r nwyddau i'r cerbyd nwyddau neu leoliad dynodedig
3. y mathau o gyfarpar y gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r cerbyd nwyddau a ddewisir i gasglu neu ddosbarthu'r nwyddau
4. y Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) y dylid ei ddefnyddio wrth symud a throsglwyddo nwyddau
5. yr hyfforddiant a'r trwyddedau perthnasol sy'n ofynnol i weithredu cyfarpar
6. sut i gynnal y cerbyd nwyddau mewn safle diogel a sefydlog wrth symud a throsglwyddo'r nwyddau
7. y mathau o beryglon neu anawsterau y gellir dod ar eu traws wrth symud a throsglwyddo nwyddau a'r camau gofynnol i'w cymryd i'w datrys neu adrodd arnynt, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad
8. y dulliau ar gyfer symud, trosglwyddo a gosod nwyddau i lawr mewn perthynas â'r math o gyfarpar a ddefnyddir, nodweddion y llwyth a gofynion y cwsmer
9. y gweithdrefnau sefydliadol ar gyfer ymdrin â nwyddau anghywir, coll neu wedi eu niweidio, yn cynnwys diffyg nwyddau
10. pwysigrwydd dychwelyd cyfarpar a ddefnyddir i symud a throsglwyddo'r nwyddau i'r safle gwreiddiol yn barod ar gyfer eu defnyddio yn y dyfodol
11. y systemau gwybodaeth a chofnodi a ddefnyddir gan y sefydliad a'r gofynion ar gyfer cadw cofnodion
12. y gweithdrefnau sefydliadol a'r holl ofynion amgylcheddol, cyfreithiol, diogelwch a gweithredu perthnasol yn ymwneud â defnyddio cyfarpar i symud, trosglwyddo a gosod nwyddau i lawr

## Geirfa

- Cydweithwyr: parhaol, dros dro, staff asiantaeth, allanol
- Cwsmeriaid: mewnol, allanol
- Cerbyd nwyddau: y cerbyd masnachol yr ydych yn ei yrru fel arfer, yn cynnwys ôl-gerbyd pan mae wedi ei gysylltu a chyfarpar ategol arall
- Llwyth: cynwysyddion, llwythi neu ôl-gerbydau wedi eu selio, nwyddau ar baledi, deunyddiau adeiladu, bwyd, tymheredd wedi ei reoli, da byw, gwastraff, nwyddau peryglus, peiriannau a pheirianwaith, cerbydau, pren, agregau, ac ati
- Gofynion amgylcheddol, cyfreithiol, diogelwch a gweithredu: Rheolau'r Ffordd Fawr, rheoliadau trafnidiaeth, rheoliadau diogelwch, codau ymarfer, cyfyngiadau llwyth, trwyddedau, oriau gyrwyr, gofynion Tystysgrif Cymhwysedd Proffesiynol Gyrrwr (DCPC), gofynion yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA), Cynllun Cydnabod Gweithredwyr Fflyd (FORS), cyfyngiadau alcohol a chyffuriau, gofynion sefydliadol
- Cyfarpar: offer, taclau, cyfarpar codi neu dipio ar y cerbyd, lifftiau cefn, tryciau codi, cludwyr, craeniau, rampiau, mecanyddol/llaw
- Peryglon: maint, pwysau, disgrifiad, niwed, halogiad
- Cyfarpar Diogelu Personol (PPE): siacedi llachar, hetiau caled, dillad amddiffynnol, diogelwch llygaid, menig
- Safle addas: diogel, perthnasol i'r archeb ddosbarthu, i fodloni gofynion y cwsmer

Defnyddio cyfarpar i symud a throsglwyddo nwyddau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2023 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2027 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | SFL224 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithrediadau a chynnal a chadw trafnidiaeth, Gyrwyr a Gweithredwyr Trafnidiaeth, Warws a Dosbarthu, Rheolwyr Dosbarthu, Storio a Manwerthu, Gweithwyr Trafnidiaeth Cyswllt Proffesiynol |
| **Cyfres/Set** | Gyrru Cerbydau Nwyddau, Gyrru Cerbydau Nwyddau ar gyfer Gweithgareddau Gollwng mewn Sawl Man |
| **Geiriau Allweddol** | nwyddau; cerbyd nwyddau; cyfarpar; casglu; dosbarthu |